# UN LLAIS CYMRU

## Proffil Rôl

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Rheolydd Prosiect Digidol** | **Gradd** | Gradd 5 |
| **Atebol i:** | Un Llais Cymru | **Oriau** | Llawn-amser/Gweithio'n hyblyg |
| | | **Patrwm Gwaith** | I'w weithio'n hyblyg |
| **Cyfnod:** | BA2023 - 2024 | | |
| **Cyflog:** | £39,493 - £47,573 | | |
| **Lleoliad:** | O bell | | |

### Mwy am y Rôl

Mae hon yn rôl newydd, gyffrous fydd yn galw am arweinydd hyderus sydd wedi dangos fod ganddynt y gallu i weithio gyda budd-ddeiliaid a chyfleu gweledigaeth gredadwy o'r dyfodol ar bob lefel o sefydliad.

Ar 16 Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig ar adroddiad darganfod digidol y Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol ar barodrwydd digidol y sector cynghorau cymuned a thref. Gwnaeth yr adroddiad wyth argymhelliad er mwyn galluogi cynghorau cymuned i weithio'n hyderus trwy ddulliau digidol. Cytunodd y Gweinidog fuddsoddiad o hyd at £150,000 yn 2023-24 i gefnogi'r newid hwn. Cafodd cynllun gweithredu uchelgeisiol ei gyd-ddatblygu gan bartneriaid o'r sector a bydd Un Llais Cymru yn cartrefu Rheolydd Prosiect Digidol i brosiect-reoli'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu hwn.

Bydd y Rheolydd Prosiect Digidol yn gweithio gyda phartneriaid o'r sector i gyflawni a monitro gweithredu'r gwahanol gamau. Byddant yn datblygu a dosbarthu deunyddiau allweddol fydd yn helpu meithrin dealltwriaeth a gwybodaeth gyffredin ar draws sector amrywiol, er budd i gynghorau cymuned yn y lle cyntaf ac, yn y pendraw, trigolion lleol.

Ymhlith y prif bartneriaid mae rhai o'r 732 cyngor cymuned a thref (gan gynnwys cynghorwyr, clercod), Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, y Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

.

| **Mwy am Un Llais Cymru** |
| --- |
| Un Llais Cymru yw'r prif fudiad ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, ac mae'n darparu llais cryf i gynrychioli buddiannau'r cynghorau a dewis eang o wasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi eu gwaith, gan gynnwys gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, cefnogaeth gyda pholisi a gweithdrefnau, gwasanaethau hyfforddiant a datblygu, gwasanaethau ymgynghorol a chynrychioli a hyrwyddo'r sector.<br><br>Mae tua 732 cyngor cymuned a thref yng Nghymru. Fel un o haenau llywodraeth leol, maent yn gyrff etholedig, ac mae ganddynt rymoedd a hawliau arddewisol a bennwyd gan y Senedd i gynrychioli eu cymunedau a darparu gwasanaethau ar eu cyfer. |

| **Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau** |
| --- |
| Bydd y Rheolydd Prosiect Digidol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn gweithio o fewn Un Llais Cymru, ac yn gweithio gyda nhw - a phartneriaid eraill o'r sector - i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol. Byddant yn cyflawni rôl arweiniol trwy weithio gyda phartneriaid cenedlaethol o'r sector a chynghorau cymuned (fel cwsmeriaid) i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol a chefnogi'r newid diwylliannol sydd ei angen i wella parodrwydd digidol y sector.<br><br>Dyletswyddau craidd y rheolydd prosiect yw:<br>• Bod yn rheolydd prosiect ar gyfer y cynllun gweithredu, e.e. trwy fonitro cynnydd, sicrhau bod partneriaid o'r sector yn cyfrannu'n llawn ac mewn ffordd amserol, monitro ac adrodd ar risgiau/materion;<br>• Casglu gwybodaeth berthnasol gan bartneriaid o'r sector er mwyn cymryd camau penodol a pharatoi canllawiau a gwybodaeth hwylus i'w defnyddio gan gynghorau cymuned.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu yn uchelgeisiol a'r bwriad yw ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2024.<br><br>Mae cyfleoedd niferus i ddefnyddio a datblygu sgiliau rheoli prosiect, datblygu profiad rheoli gyda chwsmeriaid a budd-ddeiliaid, datblygu sgiliau rheoli newid ac arweinyddiaeth a datblygu sgiliau drafftio.<br><br>Mae'r prif dasgau'n cynnwys:<br><br>• Prosiect-reoli'r Cynllun Gweithredu Iechyd Digidol.<br><br>• Defnyddio dogfennau sydd ar gael yn barod (a phartneriaid) i ddatblygu canllawiau ar y gofynion digidol "isaf derbyniol" ac adnoddau hyfforddiant ar gyfer cynghorau cymuned.<br><br>• Datblygu canllawiau, gan ddefnyddio gwybodaeth o fewn y sector, i helpu cynghorau cymuned i ddeall pa offer sydd ei angen i helpu bodloni'r gofynion isaf-derbyniol, cynnig gwerth am arian mewn ffordd sy'n gymesur i faint y cyngor.<br><br>• Cefnogi cynghorau cymuned sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog trwy weithio gyda phartneriaid o'r sector i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am:<br>    o Sut i ddefnyddio pecynnau sydd ar gael yn barod (h.y. yn Teams a Zoom) sy'n cynnwys cyfleusterau cyfieithu ar y pryd;<br>    o O ble allai cynghorau cymuned ddod o hyd i gyfieithwyr ar y pryd Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd y cyngor; |

- Gweithio gydag Un Llais Cymru i ddatblygu storfa ar-lein ar gyfer y tasgau uchod fel rhan o'r gwaith ehangach ar ddatblygu eu gwefan;
- Datblygu a chefnogi strategaeth gyfathrebu i annog cynghorau cymuned i ddeall manteision datblygiadau digidol.
- Adrodd ar gynnydd a chydweithio gyda'r Gweithgor Iechyd Digidol.

**Profiad a sgiliau hanfodol**

- Dwy flynedd o brofiad o reoli prosiect neu raglen. Gallu cyflawni deilliannau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid ac yn rhoi gwerth am arian. Adnabod risgiau a datrys materion yn effeithlon.
- Gallu ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid er mwyn cytuno ar y ffordd orau o gynllunio gwasanaethau;
- Gallu dylanwadu ar ac adeiladu perthnasoedd ar bob lefel gyda budd-ddeiliaid o bob math;
- Gallu cyfleu cysyniadau digidol i gynulleidfa annhechnegol; a
- Phrofiad neu ddealltwriaeth o weithio yn neu gyda llywodraeth leol neu amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus ehangach.

Cyfle am secondiad - mae hwn yn gontract cyfnod penodol o 9 mis gyda'r posibilrwydd o ymestyn y swydd y tu hwnt i 31 Mawrth 2024 (yn amodol ar gyllid). Bydd secondiadau o gyrff sector cyhoeddus eraill a sefydliadau Trydydd Sector yn cael eu hystyried.